## Meini prawf perfformiad

**Gweithio'n unol â'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i arfer sefydlu/ adsefydlu**

*Rhaid i chi allu:*

P1 integreiddio gwerthoedd ac egwyddorion sefydlu/ adsefydlu i'ch arfer eich hun
P2 nodi a gweithio gydag anghytundebau, gwrthdaro a thensiynau rhwng gwerthoedd ac egwyddorion datganedig
P3 sicrhau bod aelodau, wrth weithio mewn tîm, yn ymwybodol o werthoedd ac egwyddorion penodol sefydlu/ adsefydlu a'ch bod chi'n ymwybodol o werthoedd ac egwyddorion penodol gweithwyr proffesiynol eraill, yn eu cydnabod ac yn eu parchu
P4 gwerthuso'ch gwerthoedd a'ch egwyddorion eich hun, a nodi unrhyw wrth wrthdaro a thensiynau a allai godi, yn gyffredinol ac wrth ddelio ag achosion penodol
P5 datblygu strategaethau i ddelio ag unrhyw wrthdaro neu densiynau
P6 ceisio help a chyngor ar werthoedd ac egwyddorion nad ydych yn gallu'u hintegreiddio i'ch arfer, naill ai'n gyffredinol neu pan fyddwch yn ymwneud ag achosion penodol
P7 sicrhau bod yr egwyddorion, y codau a'r gwerthoedd proffesiynol yn cael eu defnyddio yn eich arfer chi, yn enwedig mewn perthynas ag arfer gwrthwahaniaethol ac arfer cynhwysol; wrth weithio gyda chydweithwyr, yn unigol ac mewn grŵp; wrth alluogi a grymuso defnyddwyr gwasanaeth; wrth weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i bennu nodau.

**Dangos barn broffesiynol, cyfiawnhau penderfyniadau a chynnal arfer, sgiliau gwerthoedd a moeseg broffesiynol**

*Rhaid i chi allu:*

P8 cymhwyso gwybodaeth a sgiliau proffesiynol i'r prosesau sefydlu/ adsefydlu:
- P8.1 cyfeirio
- P8.2 asesu
- P8.3 cynllunio
- P8.4 ymyrryd
- P8.5 canlyniadau
- P8.6 monitro
- P8.7 nodi cryfderau a sgiliau
- P8.8 adolygu arfer

P9 nodi a chyfiawnhau'r sail ar gyfer eich barn broffesiynol, gan gynnwys p'un a ydynt wedi'u seilio ar:
- P9.1 theori, modelau a dulliau sefydlu/ adsefydlu
- P9.2 arfer gorau yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth

P10 esbonio a chyfiawnhau (ar lafar ac yn ysgrifenedig) y sail resymegol dros

eich barn broffesiynol a'ch penderfyniadau wrth weithio gyda gwahaniaethau mewn safbwyntiau gan:

- P10.1 yr unigolion y mae angen gwasanaethau arnynt a'u gofalwyr
- P10.2 pobl eraill yn eich tîm chi a'ch sefydliad
- P10.3 gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys eiriolwyr

P11 gweithio'n sensitif wrth ddelio â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth

P12 cymhwyso pendantrwydd proffesiynol yn effeithiol:

- P12.1 pan fyddwch yn ategu'ch barn broffesiynol a'ch penderfyniadau
- P12.2 pan fydd pobl yn anghytuno neu'n herio'ch barn broffesiynol a'ch penderfyniadau
- P12.3 pan fyddwch yn esbonio penderfyniadau, digwyddiadau a chanlyniadau
- P12.4 pan fyddwch yn herio barn a phenderfyniadau pobl eraill: lle mae risg niwed sylweddol i'r rheiny yr ydych yn gweithio â hwy; lle mae tystiolaeth nad yw anghenion y rheiny yr ydych yn gweithio â hwy yn cael eu bodloni; lle gall angen heb ei fodloni greu risg ychwanegol; lle mae risg i chi'ch hun neu'ch cydweithwyr

P13 defnyddio'ch awdurdod proffesiynol yn adeiladol ac yn briodol

P14 esbonio sail wybodaeth a sgiliau'r proffesiwn mewn modd pendant, gwybodus a dealladwy, gan ddefnyddio dull o gyfathrebu sydd orau gan yr unigolyn yr ydych yn esbonio iddo.

**Ystyried eich arfer a’ch perfformiad eich hun yn feirniadol gan ddefnyddio systemau goruchwylio a chymorth**

*Rhaid i chi allu:*

P15 monitro a gwerthuso prosesau, arfer a chanlyniadau o'ch gwaith eich hun

P16 gofyn am adborth gan unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau, cymunedau, cydweithwyr, goruchwylwyr ac aelodau tîm wrth werthuso'ch gwaith eich hun

P17 adolygu a nodi gofynion goruchwylio, cymorth a datblygiad proffesiynol sydd:

- P17.1 wedi'u pennu gan eich sefydliad
- P17.2 wedi'u pennu gan y cynghorau rheoleiddio
- P17.3 wedi'u seilio ar arfer gorau

P18 nodi:

- P18.1 eich cyflawniadau, cryfderau gwendidau ac anghenion datblygu eich hun
- P18.2 eich arfer gorau eich hun
- P18.3 bylchau yn eich arbenigedd, yr effaith y gallai'r rhain gael ar arfer, a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â hwy
- P18.4 ffyrdd i chi allu gwella hunanfyfyrio beirniadol
- P18.5 eich adwaith chi i straen a'r modd y deliwch â sefyllfaoedd sy'n

peri straen

P19 adolygu a diweddaru eich arfer eich hun yn barhaus trwy barhau â chyfleoedd datblygiad proffesiynol

P20 ceisio a defnyddio goruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a sefydliadol i:

- P20.1 arwain arfer cyfredol a dylanwadu ar arfer yn y dyfodol
- P20.2 nodi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus a fydd yn lleihau straen ac yn gwella perfformiad

P21 gweithredu i ddiwallu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus

P22 cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant i sicrhau eich bod yn cynnal gwybodaeth ddiweddar am weithdrefnau a thechnegau arfer.

**Theori ac Arfer Da - O ran cyfathrebu**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K21 dulliau o ymgynghori â grwpiau gwahanol, gan gynnwys plant a phobl ifanc ac oedolion, eu sefydliadau neu'u grwpiau, a gwrando'n astud ar eu hadborth
K22 dulliau ar gyfer casglu, dadansoddi a dehongli adborth i alluogi gwneud penderfyniadau ynglŷn â'ch cymorth
K23 deall effaith namau lluosog. byddwch yn ymwybodol o bosibilrwydd cam-gyfathrebu yn yr amgylchiadau hyn, ac felly cynlluniwch yn ofalus sut fyddwch yn cyfathrebu gyda'r unigolyn, a defnyddiwch neu trefnwch y dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol
K24 meddu ar y sgiliau i gynllunio cyfathrebu o flaen llaw a gwneud yn siwr fod y sgiliau angenrheidiol gennych, neu fod gennych fynediad i'r sgiliau cyfathrebu arbenigol sydd eu hangen
K25 byddwch yn ymwybodol y gall fod yn well gan unigolion fynegi'u hunain gan ddefnyddio dull cyfathrebu gwahanol, o gymharu â'r dull sydd orau ganddynt i dderbyn gwybodaeth, ac addasu'ch ffordd o gyfathrebu'n unol â hynny
K26 byddwch yn ddyfeisgar wrth oresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu a rhwystrau sy'n cyfyngu ar annibyniaeth y bobl yr ydych yn eu cynorthwyo

**Theori ac Arfer Da -  O ran sefydlu/adsefydlu**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K27 safbwyntiau hanesyddol adsefydlu a lles cymdeithasol
K28 theorïau ynglŷn ag effaith awdurdod a phŵer yn y rôl sefydlu/ adsefydlu
K29 materion cyfoes a thueddiadau mewn adsefydlu
K30 deall pam mae pobl yn defnyddio sefydlu/ adsefydlu, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
K31 esboniadau seicolegol a chymdeithasegol o:
- P31.1 twf a datblygiad pobl a'r ffactorau a all effeithio arno, gan gynnwys rhychwant oes llawn, h.y. datblygiad plentyn i
- P31.2 datblygiad cydsyniad gerontoleg
- P31.3 iechyd meddwl a lles
- P31.4 rhyngweithiadau a pherthnasoedd cymdeithasol
- P31.5 gwahaniaethu a gormes
- P31.6 ymddygiad pobl
- P31.7 hunanbenderfyniad a chymhelliant

K32 asesiad gweithrediad pobl brin eu golwg a'r sgiliau angenrheidiol i gynnal hwn
K33 dyfeisiadau a therapïau i bobl brin eu golwg
K34 amrywiaeth a'r defnydd o gyfarpar arbenigol, gan gynnwys technoleg gynorthwyol, a gwybod pa rai sy'n amnewid am olwg
K35 ymyriad/ hyfforddiant therapiwtig
K36 agweddau meddygol ar fyddardod, dallineb ac anghenion gweld a

chlywed, gan gynnwys datblygiadau meddygol a'r goblygiadau gweithrediad cysylltiedig:

P36.1 anatomi a ffisioleg y llygad
P36.2 holl gyflyrau'r llygaid, a thriniaethau
P36.3 defnydd o olwg gweithredol
P36.4 dulliau therapiwtig
P36.5 cyferbyniad lliwiau
P36.6 golau
P36.7 cyfarpar
P36.8 prosesau i gofrestru ar gyfer tystysgrif nam ar y golwg
P36.9 anatomi cyffredinol, ffisioleg ac effaith amrywiaeth o faterion iechyd, gan gynnwys colli dau synnwyr

K37 y ffin rhwng sefydlu/ adsefydlu ac arfer optegol
K38 opteg a'r system weledol
K39 dehongli adroddiadau'r archwiliad clinigol
K40 dallineb-byddardod
K41 anableddau corfforol a dysgu
K42 gweithrediad echddygol synhwyraidd
K43 systemau cyfeiriadedd a symudedd
K44 datblygu, gweinyddu a goruchwylio rhaglenni cyfeiriadedd a symudedd
K45 sgiliau a thechnegau cyfeiriadedd a symudedd, ar gyfer symudedd dan do ac awyr agored, a'r defnydd o gyfarpar cysylltiedig fel ffyn a thechnoleg
K46 rheolaeth bersonol ar gyfer pobl y mae angen cymorth synhwyraidd arnynt
K47 rheolaeth cartref ar gyfer y mae angen cymorth synhwyraidd arnynt
K48 systemau cyfathrebu
K49 adloniant, hamdden, cyflogaeth, addysg a thai ar gyfer pobl y mae angen cymorth synhwyraidd arnynt

**Theori ac Arfer Da - O ran partneriaethau a chydweithio â phobl eraill**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K50 theorïau a dulliau ynglŷn â gweithio ar y cyd â'r prif grwpiau o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau
K51 theorïau tlodi, diweithdra, anghenion iechyd a ffynonellau eraill gwahaniaethu ac anfantais, a'u heffaith ar allgau cymdeithasol
K52 theorïau ynglŷn ag effaith gwahaniaethau a gormes a'r dulliau o weithio gydag amrywiaeth
K53 gwybodaeth am yr ystod o adnoddau a gwasanaethau lleol a chenedlaethol priodol yn ymwneud â sefydlu/ adsefydlu
K54 deall gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol, y gwasanaethau cymdeithasol a strwythurau cymdeithasol
K55 dulliau o weithio amlddisgyblaethol
K56 strwythurau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cyfeirio

K57 polisïau, gweithdrefnau a gofynion rheoleiddio ar gyfer diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth
K58 ymwybyddiaeth o faterion pŵer mewn lleoliadau gwaith amrywiol, ac effaith y rhain ar ganlyniadau gwasanaeth, e.e. lleoliadau cartref, lleoliadau tai gwarchod ac ati

**Theori Ac Arfer Da - O ran plant a phobl ifanc**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K59 theorïau a dulliau o hybu lles personol, cymdeithasol ac emosiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion
K60 theorïau a dulliau arferion asesu da i'w defnyddio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion
K61 theorïau addysgeg gan gynnwys strategaethau a dulliau hyfforddi i'w defnyddio gyda phlant a phobl ifanc
K62 rheoli risg a diogelu unigolion rhag niwed
K63 effaith gymdeithasol, emosiynol a seicolegol colli clyw, colli golwg a golwg diffygiol ar yr unigolyn a'r teulu, e.e. materion rhyw a rôl y rhieni
K64 pwysigrwydd cynnwys pobl allweddol, a rhieni'n benodol (sydd yn aml yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth helaeth), yn ogystal â phobl arwyddocaol eraill ym mywyd y plentyn neu unigolyn ifanc
K65 dulliau o weithio ar draws ystodau oed ac anghenion gwahanol
K66 deall rôl gwaith sefydlu gyda phlant a phobl ifanc
K67 ystyried materion hunaniaeth, effeithiau gohiriedig newid a bod yn ymwybodol o arwyddion posibl fod rhywun yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid penodol
K68 gwybod am effaith debygol trawsnewidiadau allweddol, fel ysgariad, profedigaeth, teulu'n chwalu, glasoed, symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, diweithdra a gadael cartref neu ofal
K69 deall patrymau trawsnewid o blentyndod i fod yn oedolyn, a gwerthfawrogi y gall fod yn wahanol i'ch profiadau blaenorol chi
K70 deall y gall fod angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion addysgol ychwanegol er mwyn rheoli trawsnewidiadau, a gwybod pa bryd i ofyn am gyngor arbenigol
K71 gwybod y gall eu grŵp cyfoedion ddylanwadu ar blant a phobl ifanc
K72 esboniadau seicolegol a chymdeithasegol o:
- P72.1 twf a datblygiad pobl a'r ffactorau a all effeithio arno, gan gynnwys rhychwant oes llawn, h.y. datblygiad plentyn i ddatblygiad cydsyniad gerontoleg
- P72.2 iechyd meddwl a lles
- P72.3 rhyngweithiadau a pherthnasoedd cymdeithasol
- P72.4 gwahaniaethu a gormes
- P72.5 ymddygiad pobl
- P72.6 hunanbenderfyniad a chymhelliant

